**Llywodraethu Gwybodaeth**

# Polisi Defnyddio'r Rhyngrwyd a Monitro Hynny

**Cynnwys**


1.Y Pwrpas
2. Cwmpas
3. Datganiadau Polisi
4. Cyfrifoldebau
5.Egwyddorion Defnyddio'r Rhyngrwyd
6.Monitro'r Rhyngrwyd
7. Egwyddorion Monitro
8. Mesur Cydymffurfiaeth
9. Noddwr
10. Gwarchodwr
11.Sicrhau Triniaeth Gyfartal

## 1.Y Pwrpas

**1.1**Pwrpas y ddogfen hon yw diffinio polisi Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer defnydd effeithiol a phriodol o'r Rhyngrwyd.

## 2. Cwmpas

**2.1**Mae defnydd o'r Rhyngrwyd yn cyfeirio at ddefnydd o'r rhyngrwyd o gyfrifiaduron a/neu rwydwaith yr awdurdod
rhwydwaith.

**2.2**Mae'r Polisi hwn yn llywodraethu dull y Cyngor o reoli cyfleusterau'r rhyngrwyd, gan ddiogelu buddiannau'r staff a'r Cyngor.

## 3. Datganiadau Polisi

**3.1**Defnyddir cyfleusterau rhyngrwyd yr Awdurdod yn unol â'r canlynol: Y polisi hwn a'r

canllawiau cysylltiedig.

- Pob deddfwriaeth berthnasol – gan gynnwys Deddf Diogelu Data 1990, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 1998 a’r Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau.

**3.2**Bydd y defnydd o'r Rhyngrwyd yn cael ei fonitro i sicrhau cydymffurfiaeth ag Egwyddorion Defnydd o'r Rhyngrwyd.

**3.3**Mae’r polisi hwn wedi’i gymeradwyo gan y Cyngor ac mae’n cael ei gefnogi’n llwyr ganddo.

## 4. Cyfrifoldebau

**4.1**Bydd yr Awdurdod yn rhoi addysg a hyfforddiant i'r staff i'w cynorthwyo i gydymffurfio â'r polisi hwn.

**4.2**Bydd pob rheolwr yn gyfrifol am roi'r polisi ar waith o fewn eu meysydd
bod yn gyfrifol.

**4.3**Bydd yr holl weithwyr parhaol, contractwyr a staff dros dro sy'n derbyn mynediad i'r rhyngrwyd yn nodi eu bod yn derbyn y polisi ac yn cytuno i gydymffurfio ag ef wrth ddefnyddio mynediad i'r rhyngrwyd am y tro cyntaf bob dydd.

**4.4**Bydd y Swyddog Diogeledd TG yn datblygu, cynnal a chyhoeddi gweithdrefnau, canllawiau a safonau i sicrhau cydymffurfio â'r polisi hwn.

## 5.Egwyddorion Defnyddio'r Rhyngrwyd

**5.1**Mae defnyddio cyfleusterau rhyngrwyd yr awdurdod yn arwydd o dderbyn y polisi.

**5.2**Mae'r Awdurdod yn darparu mynediad i'r rhyngrwyd i helpu gweithwyr i gyflawni eu swyddi. Er y dylid ei ddefnyddio'n bennaf ar gyfer busnes swyddogol yr Awdurdod, caniateir defnydd personol achlysurol o'r rhyngrwyd, yn unol â'r ddealltwriaeth ganlynol:

**5.3** Ni fydd defnydd personol o'r rhyngrwyd byth yn effeithio ar lif traffig busnes arferol.

**5.4**Cyfyngir defnyddir personol i'r adegau hynny y tu allan i oriau gwaith, er enghraifft, amser cinio.

**5.5**Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i hidlo cynnwys ac atal mynediad i wefannau y bernir eu bod yn anaddas.

**5.6**Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i atal ffeiliau rhag cael eu lawrlwytho o'r rhyngrwyd ar sail eu math neu eu cynnwys.

**5.7**Ni fydd unrhyw weithiwr, ymgynghorydd na chontractwr yn ceisio cael mynediad i gynnwys na'i drosglwyddo, os gellid ei ddehongli mewn unrhyw fodd fel cynnwys sarhaus, aflonyddgar neu dramgwyddus, nac a allai niweidio morâl y staff. Dyma rai enghreifftiau o ddeunydd a waherddir, ond nid ydynt yn hollgynhwysol:

- Negeseuon, delweddau, cartwnau, jôcs neu ffeiliau ffilm sy'n amlwg yn rhywiol • Cabledd, anlladrwydd, athrod neu enllib
- Difrïo ethnig, crefyddol neu hiliol
- Unrhyw gynnwys y gellid dod i'r casgliad ei fod yn difrïo neu'n aflonyddu ar eraill ar sail eu rhyw, hil, cenedl, tarddiad cenedlaethol neu ethnig, iaith, anabledd, crefydd, oedran, rhyw, trosglwyddiad rhyw, tueddfryd rhywiol, statws priodasol, cyfrifoldebau magu plant na chredoau gwleidyddol.
- Erthyglau, delweddau, areithiau neu fideos sy'n hyrwyddo terfysgaeth neu'n annog trais, gwefannau a wneir gan fudiadau terfysgol neu eithafol neu fideos o ymosodiadau terfysgol

**5.8**Ni fydd unrhyw weithiwr, ymgynghorydd na chontractwr yn ceisio torri trwy unrhyw fesurau diogeledd, boed hynny ar systemau'r Awdurdod neu unrhyw systemau eraill.

**5.9**Ni fydd unrhyw weithiwr, ymgynghorydd na chontractwr yn ceisio lawrlwytho na throsglwyddo unrhyw firws cyfrifiadurol, ysbïwedd neu gôd maleisus arall drwy ddefnyddio cyfarpar y Cyngor neu ei gyswllt â'r Rhyngrwyd.

**5.10**Bydd holl draffig y rhyngrwyd yn cael ei fonitro a'i adolygu, a gall unrhyw achosion o dorri'r polisi arwain at gymryd camau disgyblu.

**5.11**Rhaid i bob defnyddiwr sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol.

**5.12** Rhaid i bob defnyddiwr gynnal ymwybyddiaeth o firysau.
Mae defnyddwyr gliniaduron yn gyfrifol am sicrhau bod eu diffiniadau firysau yn cael eu diweddaru'n rheolaidd.

**5.13** Rhaid i chi beidio â defnyddio'r rhyngrwyd er elw ariannol personol, er enghraifft, ni chewch gynnal eich busnes eich hun gan ddefnyddio cyfleusterau'r Awdurdod.

**5.14**Bernir mai'r defnyddiwr sydd wedi mewngofnodi ar gyfrifiadur fydd yn gyfrifol am yr holl safleoedd yr ymwelwyd â hwy; felly rhaid i ddefnyddwyr fod yn wyliadwrus ac allgofnodi neu gloi eu cyfrifiaduron pan na fyddant wrth y ddesg.

**5.15** Rhaid i ddefnyddwyr beidio ag ymuno â rhestrau e-bost nad ydynt yn berthnasol i'w swyddi. Gall y rhain gynhyrchu nifer fawr o negeseuon, a gall y cynnwys fod yn amheus, sy'n golygu bod gwrthdaro gyda'r amodau uchod.

## 6.Monitro'r Rhyngrwyd

**6.1**Bydd cyfleusterau rhyngrwyd y Cyngor yn cael eu monitro'n unol â'r canlynol:-

- Y polisi hwn a’r canllawiau cysylltiedig
- Y ddeddfwriaeth briodol – sy'n cynnwys Deddf Diogelu Data 1998, Deddf Rheoli Pwerau Ymchwilio 2000 a Rheoliadau Telegyfathrebu (Arfer Busnes Cyfreithlon)(Rhyng-gipio Cyfathrebu) 2000

## 7.Egwyddorion Monitro

**7.1**Bydd y Cyngor yn monitro mynediad i'r rhyngrwyd yn awtomatig. Mae hyn yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu i fonitro'r safleoedd yr ymwelir â hwy a'r amser pori.

**7.2**Caiff mynediad ei hidlo yn ôl categori a chynnwys y safle, a gall hyd yn oed gael ei flocio'n llwyr
Bydd defnyddwyr yn cael gwybod os yw safle wedi cael ei flocio.

**7.3Darperir adroddiadau crynodol rheolaidd i reolwyr ar y defnydd o'r rhyngrwyd.**

**7.4**Darperir adroddiadau mwy manwl ar gais Penaethiaid Gwasanaeth.

## 8. Mesur Cydymffurfiaeth

**8.1**Mae cydymffurfio â'r Polisi hwn ar gyfer Defnyddio'r Rhyngrwyd a'i Fonitro yn orfodol. Os na fydd staff yn cydymffurfio ag ef gellir cymryd camau disgyblu yn eu herbyn. Gellir hysbysu'r Pwyllgor Safonau am Aelodau Etholedig nad ydynt yn cydymffurfio â’r polisi hwn.

## 9. Noddwr

**9.1**Eiddo’r Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth Corfforaethol yw'r polisi hwn.

## 10. Gwarchodwr

**10.1**Cyfrifoldeb y Swyddog Diogelwch TG yw sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei ddiweddaru.

## 11.Sicrhau Triniaeth Gyfartal

**11.1**Bydd yn rhaid rhoi'r polisi hwn ar waith yn gyson heb ystyried hil, lliw, cenedl, tarddiad ethnig neu genedlaethol, iaith, anabledd, crefydd, oedran, rhyw, trosglwyddiad rhyw, tueddfryd rhywiol, statws priodasol na chyfrifoldebau magu plant.

Os hoffech gael y ddogfen hon mewn fformat arall, cysylltwch â'r Swyddog Diogeledd TG drwy ffonio 01267 246326 neu drwy e-bostio: **ITSecurity@sirgar.gov.uk**

Cymeradwywyd y Polisi gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ar: 14eg Mai, 2013 Dyddiad Adolygu'r Polisi: Mai, 2016
Ysgrifennwyd y polisi gan: Idris Evans, CISSP